



Cynllun Iaith Cymraeg

Adroddiad Blynyddol

Medi 2007

CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y COMISIWN GWASANAETHAU CYFREITHIOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Dyma'r adroddiad cyntaf a baratowyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg a chynnydd o'i gymharu â'i Gynllun Gweithredu 2006. Derbyniodd y Cynllun, a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Mawrth 2006. Fe'i lanswyd yn ffurfiol yng Nghynhadledd Cymru'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 13 Gorffennaf 2006. Mae'r adroddiad hwn yn bennaf yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a wnaed yn y cyfnod Gorffennaf 2006 i Fawrth 2007.
- 1.2 Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gorff cyhoeddus anadrannol, sy'n atebol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Nodir ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau yn Neddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 a'n diben yw helpu pobl i gael gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wedi eu hariannu'n gyhoeddus sy'n ymdrin ag anghenion gwirioneddol. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ar incwm isel yn cael mynediad at gyfiawnder. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r gwaith o weinyddu cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn cael ei gynnal mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaer.
- 1.3 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn amlinellu ein hymrwymiad i'r Iaith Gymraeg ac mae'n cefnogi'r egwyddor sy'n sail i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn llawn, sef sicrhau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, y byddant yn cael yr un gwasanaethau o safon uchel â'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r iaith Saesneg.

2. PROSES FONITRO

- 2.1 Ar 1 Mehefin 2007 penododd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ei Swyddog Iaith Gymraeg cyntaf, gyda chyfrifoldeb am hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 2.2 Roedd rhai o'r camau a amlygwyd dan y Cynllun Iaith Gymraeg yn gofyn am adolygiad o arferion cyfredol a pharatoi Cynllun Gweithredu ar gyfer cydymffurfio â'r Cynllun o fewn yr amserlen a nodwyd.
- 2.3 Lluniwyd rhestr o'r gweithgareddau allweddol a wnaed sy'n dangos ein bod yn cydymffurfio a'n Cynllun Iaith Gymraeg i roi tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a'i fonitro.
- 2.4 Trwy weithio gyda chydweithwyr yn swyddfa Cymru, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg wedi sefydlu gweithdrefnau i fonitro cydymffurfiad â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

2.5 Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol i roi manylion am ein perfformiad yn y meysydd canlynol:

- Cynllunio Gwasanaeth a Darparu Gwasanaeth
- Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru
- Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad
- Cyhoeddusrwydd
- Recriwtio a Staffio
- Gweithredu a Monitro'r Cynllun

3. CYNLLUNIO A DARPARU'R GWASANAETH

3.1 Wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau newydd ac wrth ystyried effaith polisïau a gweithdrefnau'r llywodraeth, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn sicrhau bod gofynion ein defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg a Saesneg yn cael statws cyfartal trwy gyfeirio ein gweithgareddau arfaethedig at y Swyddog Iaith Gymraeg. Dosbarthwyd dogfennau sy'n rhoi arweiniad i bersonél allweddol yn rhoi manylion gofynion yr Iaith Gymraeg sydd i'w hystyried wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau.

3.2 Mae Arweinyddion Timau Prosiect wedi cyfeirio ymholiadau ar effaith camau gofynnol i weithredu mentrau newydd at y Swyddog Iaith Gymraeg, ar sail ad hoc. Yn ystod cyfnod 2007-08, bydd Ffurflen Gyfeirio ffurfiol yn cael ei chreu i'w llenwi gan dimau Gweithredu a'i chyflwyno i'r Swyddog Iaith Gymraeg. Y bwriad yw i'r Ffurflen Gyfeirio ddangos sut y mae effaith gweithgareddau newydd a'n hymrwymadau dan y Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael eu hystyried a bydd yn cynnig tystiolaeth ffurfiol o'n proses. Bydd gwerth cyflwyno Ffurflen Gyfeirio yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses fonitro gyson.

3.3 Fel corff, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel i gleientiaid Cymraeg a Saesneg. Mae ein targedau perfformiad cyfredol a'n safonau gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n gyson trwy'r offeryn perfformiad VOICE. Mae gwasanaethau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys fel rhan o'r gwaith monitro cyson ar dargedau perfformiad a safonau gwasanaeth. Rhagwelir y bydd y gwaith monitro ar wasanaethau Cymraeg a Saesneg yn parhau ar ei ffurf bresennol yn 2007-08.

4. YMDRIN Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

4.1 FFURFLENNI

- Ein hymrwymiad dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw cynnig dewis i'r cleientiaid hynny sy'n defnyddio gwasanaethau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru i ddefnyddio ffurflenni yn Saesneg, Cymraeg neu'n ddwyieithog. Cynhaliwyd adolygiad o'r ffurflenni sifil a ddefnyddir gan y cyhoedd yn Awst 2006 ac o hynny lluniwyd drafft o gynllun gweithredu ar gyfer darparu

ffurflenni yn Saesneg, Cymraeg neu'n ddwyieithog ac fe'i hadolygwyd yn Rhagfyr 2006.

- Rhagwelwyd y byddai'r ffurflenni sy'n cael eu defnyddio amlaf gan y cyhoedd yng Nghymru, sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, hefyd ar gael yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog i'w cynnwys yn y diweddariad Ffurflenni Masterpack yn Ebrill 2007, gyda'r holl ffurflenni eraill ar gael yn Gymraeg/yn ddwyieithog i'w cynnwys yn y diweddariad Ffurflenni Masterpack yn Hydref 2007.
- Bu'r gwaith o ddarparu'r ffurflenni ar y ffurf Omniform gofynnol yn arafach nag a ragwelwyd oherwydd ein bod wedi gwneud amcangyfrif rhy isel o'r amser oedd yn ofynnol i baratoi ffurflenni a newidiadau yn y staff. Er bod mwy nag 80% o'r gwaith gofynnol wedi ei wneud hyd yn hyn, mae'n debygol y bydd darparu'r holl ffurflenni yn y Gymraeg/yn ddwyieithog yn gyflawn yn awr erbyn Gorffennaf 2007. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd ar gyfieithu'r ffurflenni, diweddarau gwybodaeth a'u hargaeledd i gleientiaid a darparwyr fel ei gilydd yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg yn parhau yn y cyfnod 2007-08.
- Arweiniodd cyflwyno profion modd i gleientiaid sy'n chwilio am wasanaethau amddiffyn troseddol yn y system gyfiawnder troseddol yn Hydref 2006 at weithdrefnau newydd i gleientiaid a staff y llys fel ei gilydd. Paratowyd ffurflenni cais cymorth cyfreithiol troseddol newydd (Ffurflenni CDS) i'w defnyddio mewn Llysoedd Ynadon ac roeddent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn Hydref 2006, er i ni weld peth oedi cyn i'r ffurflenni Cymraeg fod ar gael i'w defnyddio. Oherwydd y newidiadau gofynnol i ffurf a chynnwys y ffurflenni CDS yn Ionawr 2007, fe welwyd y ffurflenni diwygiedig ar gael yn y ddwy iaith yn Ionawr 2007. Ond fe welwyd peth oedi cyn i'r ffurflenni Cymraeg fod ar gael oherwydd newidiadau funud olaf y bu'n rhaid iddynt fynd trwy'r broses gyfieithu. Bydd y gweithdrefnau i sicrhau bod ffurflenni'n cael eu dosbarthu ar unwaith yn cael ei adolygu a'i fonitro'n fanwl yn 2007-08 er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb o ran darparu gwasanaeth.

4.2 GOHEBIAETH

- Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gyfartal wrth ymdrin â gohebiaeth Gymraeg, yn Awst 2006 cymrodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gamau i recriwtio a hyfforddi gweithiwr achos gyda sgiliau ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg. Darparwyd hyfforddiant ar bob agwedd o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid i sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn unol â thargedau perfformiad penodedig a safonau gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni, mae gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gweithdrefnau Rheoli Ansawdd Gohebiaeth misol sy'n cael eu cynnal gan yr Uwch Weithiwr Achos yn swyddfa Cymru.
- Mae unrhyw geisiadau a dderbynnir am ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cofnodi trwy nodyn ar ein System Wybodaeth Gorfforaethol.

- Mae unrhyw e-byst a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu prosesu yn ôl yr un safonau amser ag e-byst Saesneg. Cymerwyd camau i ddefnyddio llofnodion e-bost dwyieithog.
- Gan Reolydd Cyfathrebu Cymru, sydd yn ddwyieithog, y mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr holl Gylchlythyrau i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Mae'r cylchlythyrau a gyhoeddir yn cael eu cynnwys fel rhan o'r gweithdrefnau monitro misol a gynhelir gan y Swyddog Iaith Gymraeg a bydd hyn yn parhau yn 2007-08.

4.3 GALWADAU FFÔN

- Amlinellodd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth ffôn Cymraeg i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg a sefydlwyd llinell benodol ar wahân ar gyfer galwadau Cymraeg yng Ngorffennaf 2006. Yn ystod y mis canlynol recriwtiwyd gweithiwr achos gyda sgiliau llafar Cymraeg a Saesneg. Rhoddwyd hyfforddiant ar bob agwedd o'r gwaith a wneir yn yr Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid i sicrhau bod galwadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu prosesu yn unol â thargedau perfformiad a safonau gwasanaeth penodol.
- Er mwyn hysbysebu'r gwasanaeth ychwanegol, dyluniwyd posteri dwyieithog i hysbysebu'r rhif ffôn ar wahân ac fe'u hanfonwyd at yr holl arbenigwyr a gontractiwyd i gyflenwi gwasanaethau a chyrrff gyda nod ansawdd ac fe'i rhoddwyd mewn post allanol i gleientiaid a grëwyd yn swyddfeydd Cymru am gyfnod penodol o un mis.
- Mae cofnod y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn y llyfr tudalennau melyn ar gyfer ei swyddfa yng Nghaerdydd wedi ei ddiwygio i ddangos manylion y gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael.
- Er mwyn sicrhau bod galwadau ffôn Cymraeg yn cael eu prosesu yn unol â'r un targedau perfformiad a safonau gwasanaeth â galwadau Saesneg, mae'r Rheoli Ansawdd ar Alwadau Ffôn misol yn cynnwys pob ymholiad a drafodwyd gan Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid Cymru beth bynnag fo'r iaith a ddefnyddiwyd.
- Mae'r holl staff yn swyddfa Cymru wedi cael hyfforddiant ar ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Bu'r ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i system wirio ar hap fisol ers Medi 2006 a rhoddwyd rhagor o gefnogaeth os oedd angen hynny. Gan fod aelodau newydd o'r staff wedi eu penodi i swyddfa Cymru rhoddwyd hyfforddiant ar weithredu gwasanaeth ffôn dwyieithog fel rhan o'r broses gynefino.
- Mae'r holl staff yn swyddfa Cymru wedi cael arweiniad ar drosglwyddo galwadau pan fydd y cleient yn dymuno sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg ac nad oes aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- Recordiwyd negeseuon dwyieithog ar y llinellau ffôn dyletswydd Saesneg a Chymraeg. Recordiwyd y negeseuon tu allan i oriau swyddfa yn ddwyieithog

hefyd ar y ddwy linell. Sefydlwyd gweithdrefnau monitro i sicrhau bod unrhyw ddiweddariad i neges yn cael ei recordio ar yr un pryd i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n galw yn cael eu trin yr un fath.

4.4 CYFARFODYDD CYHOEDDUS

- Pan fydd cyfarfodydd y mae'r cyhoedd yn cael eu gwahodd iddynt yn cael eu cynnal yng Nghymru, cynigir dewis o ran iaith. Anfonir gwahoddiadau a hysbysiadau dwyieithog yn hysbysebu'r digwyddiad at gynrychiolwyr ac mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael fel y gwelwyd yng Nghynhadledd Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru yng Ngorffennaf 2006. Rhoddwyd pecynnau cynhadledd dwyieithog i'r cynrychiolwyr oedd yn cynnwys copïau dwyieithog o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn a thaflen grynhoi, ynghyd â thafleddi gwybodaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) dwyieithog.
- Mae gan Reolydd Cyfathrebu Cymru gyfrifoldeb am sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn ôl y gofyn pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan y Comisiwn yng Nghymru.

4.5 GALWYR PERSONOL

- Mae'r rhai sy'n galw'n bersonol ac yn dymuno cael cyfweiliad wyneb yn wyneb yn gwybod eu bod yn medru gwneud hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein swyddfeydd yng Nghymru.
- Cynhaliwyd adolygiad o dderbynfeydd yng Ngorffennaf 2006 ac fe osodwyd posteri yn hysbysebu gwasanaeth Cymraeg mewn mannau cyhoeddus yn swyddfa Cymru. Rhoddir hysbysiadau dwyieithog yn y dderbynfya ar gyfer swyddfa Cymru. Mae adolygiad cyson ar y posteri a hysbysiadau yn ardaloedd cyhoeddus ein swyddfeydd yng Nghymru a byddant yn parhau i gael eu monitro.
- Mae aelodau o'r staff yn swyddfeydd Cymru a Chaer wedi cael arweiniad ar ymdrin â chleientiaid sy'n mynychu'r swyddfa ac yn dymuno sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae aelodau newydd o'r staff yn swyddfeydd Cymru hefyd wedi cael hyfforddiant fel rhan o'r cwrs cynefino.

5.0 HUNANIAETH GORFFORAETHOL Y SEFYDLIAD

- 5.1 Mae'r sefydliad yn ymroddedig i ddefnyddio fersiynau Cymraeg a Saesneg logo'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Roedd dogfennau fel y Cynllun Iaith Gymraeg a Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2006 yn arddangos y ddau logo.
- 5.2 Defnyddir papur swyddfa dwyieithog wrth gynhyrchu gwaith i'r cyhoedd o swyddfa Cymru. O Orffennaf 2006, roedd y defnydd o bapur swyddfa dwyieithog yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses Sicrwydd Ansawdd Gohebiaeth fisol gan uwch weithwyr achos yn Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid Cymru.

- 5.3 Comisiynwyd bathodynnau dwyieithog yn arddangos y logo Cymraeg a Saesneg ar gyfer defnydd staff Cymru ar ddyletswydd gyhoeddus ym Mehefin 2006 ac fe'u defnyddir yn eang mewn digwyddiadau tu allan i'r swyddfeydd. Darperir cardiau busnes dwyieithog personol i staff sy'n mynychu digwyddiadau cyhoeddus.
- 5.4 Mae deunyddiau arddangos mewn digwyddiadau gan gynnwys cynhadledd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Ngorffennaf 2006, Wythnos Edrych ar Gyfiawnder yn Nhachwedd 2006, derbyniad yn Nhŷ'r Cyffredin yn Ionawr 2007 a Chynhadledd NOMS yn Chwefror 2007 yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn dangos fersiwn Gymraeg a Saesneg o logo'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Yn y digwyddiad Edrych ar Gyfiawnder ym Mhrifysgol Aberystwyth, llongyfarchodd Swyddog Iaith Gymraeg y coleg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar ei ddeunyddiau arddangos dwyieithog a'r taflenni gwybodaeth.
- 5.5 Mae tystysgrifau, os gofynnir amdanynt, ac arwyddion i'w harddangos ar gyfer cyrff Nod Ansawdd yng Nghymru ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 5.6 Bydd deunyddiau arddangos cyhoeddus ac adnoddau yn parhau i fod yn ddarostyngedig i fonitro cyson gan Reolydd Cyfathrebu Cymru a'r Swyddog Iaith Gymraeg.

6.0 CYHOEDDUSRWYDD

6.1 CYHOEDDIADAU

- Er mwyn sicrhau cydraddoldeb yn y gwasanaeth, mae'r Comisiwn yn anelu at sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a fwriadwyd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, mewn un ddogfen os yn bosibl. Trwy gyswllt rhwng y staff yn swyddfa Cymru a'r Swyddog Iaith Gymraeg, mae'r holl ddogfennau cyhoeddus sy'n deillio o Gymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog.
- Cynhyrchodd y Swyddog Iaith Gymraeg aide-memoire i Arweinwyr Timau Prosiect yn rhoi arweiniad ar pryd y mae angen cyfieithu dogfennau cyhoeddus. Dosbarthwyd y ddogfen hefyd i Reolwyr Gweithrediadau ym Medi 2006. Cyfeirir cyhoeddi dogfennau nad ydynt yn deillio o Gymru at y Swyddog Iaith Gymraeg am arweiniad yn ôl y galw. Yn ystod y cyfnod 2007-08, bydd Ffurflen Gyfeirio ffurfiol yn cael ei chreu i'w llenwi gan grewyr dogfennau a'i chyflwyno i'r Swyddog Iaith Gymraeg. Bwriedir i'r Ffurflen Gyfeirio ddangos sut y mae effaith gweithgareddau newydd a'n hymrwymiad dan ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael eu hystyried a bydd yn cynnig tystiolaeth ffurfiol o'n proses. Bydd gwerth cyflwyno Ffurflen Gyfeirio yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses fonitro gyson.
- Mae taflenni gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n cael eu harddangos yn nerbynfa swyddfa Cymru ac mewn digwyddiadau y gwahoddir y cyhoedd iddynt ar gael yn ddwyieithog. Sefydlwyd gweithdrefnau gyda'r adran Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol yn Llundain i ddeunyddiau wedi eu diweddarau gael eu

hanfon at y Swyddog Iaith Gymraeg yn swyddfa Cymru i'w hadolygu cyn eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd y gwaith o fonitro deunyddiau yn parhau yn 2007-08.

6.2 GWEFANNAU RHYNGRWD

- Mae gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol 4 gwefan (Gwefan LSC, Galw CLS, LSRC a'r safle Recriwtio) ac ar hyn o bryd mae ein gwefan Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r testun a'r taflenni gwybodaeth sydd ar gael i'w lawrlwytho gan y cyhoedd ar wefan Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ystod 2007-08 bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer diweddarau gwybodaeth Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol Cymraeg i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ar yr un pryd â diweddariadau Saesneg, a phan fydd angen hynny, diwygio'r gweithdrefnau.
- Cynhaliwyd adolygiad o ddarparu gwybodaeth ddwyieithog ar ein gwefannau ym Medi 2006 a pharatowyd Cynllun Gweithredu ar gyfer darparu gwybodaeth ddwyieithog. Ar hyn o bryd mae dogfennau dwyieithog o ddiddordeb i'r cyhoedd ar gael ar dudalennau swyddfa Cymru.
- Nid oes unrhyw destun ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd fodd bynnag. Gwnaed gwaith i ailwampio ein gwefan i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gael mynediad at ddeunyddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Ysgrifennwyd gweithdrefnau i sicrhau bod deunyddiau newydd sy'n cael eu hysgrifennu ac angen eu cyfieithu yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Iaith Gymraeg i'w hystyried a bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod 2007-08. Bydd staff yn Nhîm Rhyngrwd swyddfa Cymru yn diweddarau eu sgiliau TG fel y gellir prosesu diweddariadau dwyieithog i'n tudalennau ar gyfer Cymru gyda'r oedi lleiaf posibl.

6.3 HYSBYSIADAU I'R WASG a HYSBYSEBU

- Wrth hysbysebu yng Nghymru bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymdrin â'r ddwy iaith yn gyfartal. Cyhoeddir hysbysiadau i'r wasg pan fydd y deunydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Sefydlwyd cysylltiadau a gweithdrefnau rhwng swyddfa'r wasg y Comisiwn a Rheolydd Cyfathrebu Cymru i sicrhau bod hysbysiadau dwyieithog yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd.
- Mae'r cyswllt rhwng Rheolydd Cyfathrebu Cymru a'r Swyddog Iaith Gymraeg yn sicrhau bod hysbysiadau dwyieithog i'r wasg yn cael eu rhyddhau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu, cynhyrchir hysbysebion dwyieithog neu Gymraeg yn unig pan fydd hynny'n addas ac mae ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Bydd unrhyw arddangosfeydd newydd i'r cyhoedd yng Nghymru yn parhau i gael eu cynhyrchu ar ffurf ddwyieithog.

7.0 RECRIWTIO A STAFFIO

- 7.1 Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymroddedig i sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi i gynnig gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr i'r cyhoedd yng Nghymru. Cwblhawyd adolygiad o sgiliau dwyieithog staff mewn swyddi yn yr holl swyddfeydd erbyn Awst 2006, a chynhaliwyd adolygiad o'r gofynion sgiliau Cymraeg i staff yn swyddfeydd Cymru a Chaer.
- 7.2 Lluniwyd strategaeth sgiliau ieithyddol gychwynnol ar gyfer gofynion staff o ran sgiliau iaith Gymraeg hanfodol, yn canolbwyntio ar y sgiliau dwyieithog cyfredol, lle mae angen datblygu sgiliau, a gofynion hyfforddi yn unol â'r anghenion busnes a ddynodwyd. Lluniwyd cynllun gweithredu ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg ac mae'n cael ei adolygu'n gyson.
- 7.3 Mae gan y Swyddog Iaith Gymraeg gyfrifoldeb am annog staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Cynhaliwyd adolygiad o argaeledd cyrsiau iaith Gymraeg ar gyfer Cymraeg Busnes ac yn dilyn cyswllt gydag Uned Gymraeg Prifysgol Caerdydd, tynnwyd sylw at gwrs Gwella Cymraeg yn y Gwaith ar gyfer 4 oedd am wella eu Cymraeg yn swyddfa Cymru. Cychwynnodd y sesiynau bob pythefnos yn Ionawr 2007 a byddant yn parhau hyd Orffennaf 2007.
- 7.3 Sefydlwyd grŵp dysgwyr yn fewnol yn Hydref 2006 ac oherwydd y diddordeb ymhlith y staff, cychwynnodd ail grŵp yn Chwefror 2007. Ar hyn o bryd mae 15 aelod o'r staff yn mynychu'r sesiynau wythnosol yn gyson, sy'n parhau i gael eu rhedeg gan y Swyddog Iaith Gymraeg.
- 7.4 Cyhoeddir hysbysebion recriwtio ar gyfer staff yn swyddfa Cymru sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru yn ddwyieithog fel y gwelir yn y gwaith o recriwtio Cyfarwyddydd Cymru. Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn parhau i fonitro hysbysebion a hysbysiadau i wirio a yw'r ffurf gywir yn cael ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd dim ond yr hysbysebion sydd ar gael yn ddwyieithog. Yn 2007-08 bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar gynhyrchu ffurflenni cais Cymraeg a gweithdrefnau asesu.

8.0 GWEITHREDU a MONITRO'R CYNLLUN

- 8.1 Gwneir y gwaith o weithredu a monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg gan y Swyddog Iaith Gymraeg yn gyson.
- 8.2 Hysbysir aelodau o'r cyhoedd y dylent gyfeirio unrhyw gwynion am fethiant i gydymffurfio â gofynion y Cynllun at y Rheolydd Ansawdd yn swyddfa Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol hyd yn hyn. Fodd bynnag fe wnaed dau ymholiad am argaeledd a dosbarthiad ffurflenni Cymraeg/dwyieithog. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer dosbarthu ffurflenni Cymraeg/dwyieithog ar yr un pryd fel y byddant ar gael yn ddarostyngedig i adolygiad manwl yn 2007-08.

- 8.3 Lansiodd ein Cynllun Iaith Gymraeg yn swyddogol yn ein cynhadledd LSC Cymru yng Ngorffennaf 2006. Dosbarthwyd copïau dwyieithog o'r Cynllun a thaflen yn crynhoi'r elfennau allweddol a sut y gellid cael copïau o'r fersiwn llawn i'r holl gynrychiolwyr yn y gynhadledd ac wedyn i'r holl aelodau staff yn swyddfeydd Cymru a Chaer, darparwyd a gontractiwyd, darparwyd gyda nod ansawdd a'r holl rai â diddordeb. Roedd copïau ar gael hefyd ar dudalennau Cymru gwefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.
- 8.4 Arddangosir copïau o Dystysgrif cymeradwyo ein Cynllun Iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith yn nerbynfeydd ein holl swyddfeydd Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

9.0 CRYNODEB

- 9.1 Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi dechrau gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg yn dda ac mae'r cynnydd yn parhau. Rhoddwyd gweithdrefnau yn eu lle i fonitro gweithgareddau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun a bydd y rhain yn parhau i gael eu hadolygu. Tynnwyd sylw at nifer o feysydd ar gyfer datblygiadau pellach dros y 12 mis nesaf i wella'r modd y darperir gwasanaeth i gleientiaid yng Nghymru.
- 9.2 Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i fod yn ymroddedig i'w Gynllun Iaith Gymraeg.